CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Ysgol Cybi

# Polisi CCTV Ysgolion / *Schools CCTV Policy*

(Fersiwn 1, Ebrill 2022 / *Version 1, April 2022)*

**Ynglŷn â'r polisi hwn**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i reoleiddio'r gwaith o reoli, gweithredu a defnyddio'r system CCTV (Teledu Cylch Cyfyng) yn yr ysgol.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

***About this policy***

*This policy outlines what the school needs to do to regulate the management, operation and use of the CCTV system (Closed Circuit Television) at the school.*

*This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.*

| **Fersiwn /** ***Version*** | **Dyddiad /** ***Date*** | **Crynodeb o newidiadau /** ***Summary of changes*** | **Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr /** ***Date Accepted by Board of Governors*** |
|---|---|---|---|
| F1 / *V1* | Ebrill 2022 / *April 2022* | Polisi newydd- cymryd lle y fersiwn cyfredol / *New policy- replacing the current version.* | |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf /** ***Date of next review*** | |
|---|---|
| Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:* | Ebrill 2025 / *April 2025* |
| Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:* | Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer* |

**Manylion Cyswllt:**

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

***Contact Details:***

*Schools Data Protection Officer*

*E-mail:*
*dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk*

*Telephone: 01248 751833*

*Address:*
*Learning Service*
*Isle of Anglesey County Council*
*Council Offices*
*Llangefni*
*Anglesey*
*LL77 7TW*

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

| | |
|---|---|
| **Dogfen:** | Templed polisi sy'n amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i reoleiddio'r gwaith o reoli, gweithredu a defnyddio'r system CCTV (Teledu Cylch Cyfyng) yn yr ysgol. |
| ***Document:*** | *Policy template outlining what the school needs to do to regulate the management, operation and use of the CCTV system (Closed Circuit Television) at the school.* |
| **Cyfrifoldeb:** | Cyfrifoldeb corff llywodraethu a Phennaeth yr ysgol yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn rheoleiddio'r gwaith o reoli, gweithredu a defnyddio'r system CCTV yn yr ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod holl staff perthnasol yr ysgol yn gweithredu ac yn cydymffurfio. |
| ***Responsibility:*** | *It is the responsibility of the school governing body and the Headteacher to ensure procedures are in place to ensure that the school regulates the management, operation and use of the CCTV system at the school. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all relevant school staff.* |

**Cynnwys** **Page**


1. Datganiad Polisi 4
2. Sgôp 4
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau 5
4. Diffiniadau 6
5. Cyfrifoldebau 7
   5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol 7
   5.2. Y Pennaeth (ac/neu'r Person sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol) 7
   5.3. Swyddog Diogelu Data Ysgolion 8
6. Pam bod gan yr ysgol CCTV 9
7. Sail Gyfreithiol dros Brosesu 9
8. Rheoli System 10
   8.1. Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) 11
   8.2. Mynediad 11
9. Darllediadau CCTV 12
   9.1. Hysbysiadau 12
   9.2. Lleoliad y Camerâu 13
   9.3. Ymwelwyr 14
10. Gwyliadwriaeth Gudd 14
11. Storio a Chadw Offer a Data 15
12. Asesu'r System CCTV 15
13. Lawrlwytho Gweithdrefnau Ffilm 16
14. Ceisiadau gan Wrthrych y Data 17
    14.1. Delweddau o Unigolion Eraill / Trydydd Partïon 18
15. Mynediad at Ddelweddau a Datgelu Delweddau i Drydydd Partïon 18
16. Rhannu Delweddau CCTV â'r Heddlu 20
17. Prosesu Trydydd Parti 20
18. Technoleg Adnabod Wynebau Byw (LFR) 21
19. Hyfforddiant 21
20. Cwynion 21
21. Torri'r Polisi 22
22. Adolygu Trefniadau Polisi ac Arolygiaeth 22

ATODIAD A- Log System CCTV Ysgolion 45
ATODIAD B- Log Lleoliadau CCTV Ysgolion 51
ATODIAD C- Gweithdrefn CCTV yr Ysgol 52
ATODIAD D- Polisi CCTV Ysgolion- Rhestr Wirio'r Pennaeth 53

**English Version** **24**

## 1. Datganiad Polisi

Nod deddfwriaeth diogelu data yw diogelu preifatrwydd personol a hawliau unigolion y mae data yn cael ei gasglu, ei storio, ei brosesu neu ei gyflenwi yn eu cylch. Mae *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael mesurau diogelwch technegol priodol ar waith i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel a'i ddiogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

Mae casglu a/neu recordio delweddau o unigolion adnabyddadwy yn gyfystyr â phrosesu gwybodaeth bersonol ac felly mae angen cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data o dan *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae'r ysgol yn defnyddio camerâu CCTV i fonitro gweithgareddau o fewn yr ysgol ac ar dir yr ysgol i nodi gweithgarwch troseddol sy'n digwydd, a ragwelir iddo ddigwydd neu a ganfuwyd ei fod wedi digwydd. Fe'i defnyddir hefyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles y disgyblion a'r staff yn yr ysgol ynghyd â'i hymwelwyr a'r cyhoedd.

Mae'r polisi hwn yn manylu ar ddiben ac yn rheoleiddio'r gwaith o reoli, gweithredu a defnyddio'r system CCTV yn yr ysgol. Mae hefyd yn rhoi manylion am y gweithdrefnau i'w dilyn.

Diben y polisi hwn yw sicrhau:

- bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys *Deddf Diogelu Data 2018*; *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* ac egwyddorion *Cod Ymarfer y Surveillance Camera Commissioner*;
- bod y delweddau sy'n cael eu tynnu yn cael eu defnyddio at y dibenion y mae'r ysgol yn gofyn amdanynt;
- y gall yr ysgol gysuro'r personau hynny y mae eu delweddau'n cael eu tynnu bod y delweddau'n cael eu trin yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Mae'r system yn cynnwys nifer o gamerâu gosodedig a dôm wedi'u lleoli o amgylch safle'r ysgol. Mae'r holl gamerâu gosodedig mewn golwg amlwg ar safle'r ysgol. Nid yw'r ysgol yn defnyddio CCTV fel mater o drefn i fonitro'n gudd neu i fonitro eiddo preifat y tu allan i dir yr ysgol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol neu eithafol i wneud hynny.

Bydd yr ysgol yn trin y system, yr holl wybodaeth, dogfennau a recordiadau (y rhai a gafwyd a'r rhai a ddefnyddiwyd wedyn) fel data a ddiogelir o dan *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Ni fydd deunyddiau na gwybodaeth a gafwyd o ganlyniad i CCTV yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben masnachol. Ni fydd delweddau byth yn cael eu rhyddhau i'r cyfryngau at ddibenion adloniant.

## 2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff yn yr ysgol sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad i system CCTV yr ysgol.

Mae'r polisi hwn hefyd yn cyflwyno hysbysiad a chanllaw i wrthrychau data (gan gynnwys disgyblion, rhieni, staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr â'r ysgol ac aelodau o'r cyhoedd ac unrhyw bersonau eraill y gellir tynnu eu delweddau ar y system CCTV) ynghylch eu hawliau mewn perthynas â data personol a gofnodir drwy system CCTV yr ysgol.

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â'r defnydd o systemau gwyliadwriaeth a CCTV sy'n dangos delweddau symudol a delweddau llonydd o bobl y gellid eu hadnabod, yn ogystal â gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion at unrhyw un o'r dibenion canlynol:

- arsylwi beth mae unigolyn yn ei wneud;
- cymryd camau gweithredu i atal trosedd;
- defnyddio delweddau o unigolion y gall effeithio ar eu preifatrwydd.

Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau sydd ynddo yn berthnasol i holl systemau CCTV yr ysgol gan gynnwys gwe-gamerâu, gosodiadau cudd ac unrhyw system arall sy'n tynnu delweddau o unigolion adnabyddadwy er mwyn gwylio a recordio gweithgareddau unigolion o'r fath.

Caiff delweddau CCTV eu monitro a'u cofnodi yn unol â'r polisi hwn.

## 3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae deddfwriaeth berthnasol arall a gymerir i ystyriaeth o fewn y polisi hwn yn cynnwys:

- *Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (POFA);*
- *Deddf Hawliau Dynol 1998;*
- *Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000;*
- *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;*
- *Deddf Rheoleiddio Deddf Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA);*
- *Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994;*
- *Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996*

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)- *'Video Surveillance Guidance'* a *Chod Ymarfer y Surveillance Camera Commissioner,* yn enwedig y 12 egwyddor arweiniol. Bydd yr ysgol hefyd yn dilyn – *'In the picture: A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information'* a'r *'Surveillance Camera Commissioner Buyers Toolkit'.*

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion*; *Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion; Polisi*

*Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion; Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion* a *Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau Heddlu yn y Deyrnas Unedig Gwynedd a Môn*. Mae'r rhain i gyd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Dogfennau perthnasol sydd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu:

- *Log Lleoliadau CCTV Ysgolion;*
- *Log System CCTV Ysgolion;*
- *Gweithdrefn CCTV yr Ysgol;*
- *Ffurflen Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion;*
- *Ffurflen SA3 - Cais i sefydliad allanol am ddatgelu data personol i'r Heddlu.*

## 4. Diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Data personol** | Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur. |
| **Data categori arbennig** | Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif. |
| **Prosesu Gwybodaeth** | Casglu, derbyn, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, cadw, diwygio, addasu, newid, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, cael gwared â gwybodaeth, ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi. |
| **Gwyliadwriaeth** | Monitro symudiadau ac ymddygiad unigolion; gall hyn gynnwys fideo, sain neu ffilm fyw. At ddibenion y polisi hwn, dim ond fideos fydd yn berthnasol. |
| **Gwyliadwriaeth Agored** | Unrhyw ddefnydd o wyliadwriaeth nad yw ei hawdurdod yn dod o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. |
| **Gwyliadwriaeth Gudd** | Unrhyw ddefnydd o wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rannu'n fwriadol â'r gwrthrychau y mae'n eu recordio. Ni fydd gwrthrychau'n cael gwybod am wyliadwriaeth o'r fath. |
| **Technoleg Adnabod Wynebau Byw (LFR)** | Mae technoleg adnabod wynebau byw (LFR), a elwir hefyd yn gydnabyddiaeth wyneb awtomatig, yn adnabod pobl mewn fideo mewn amser real, gan ddefnyddio set o ffotograffau fel cyfeiriad. Mae camerâu gwyliadwriaeth adnabod wynebau yn sganio'r holl wynebau y gallant eu gweld mewn torf i wirio hunaniaeth pobl yn erbyn cronfa ddata mewn amser real. |
| **Systemau Gwybodaeth** | Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data. |

| | |
|---|---|
| **Risg** | Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain. |
| **Effaith** | Beth fyddai canlyniadau'r risg pe bai'n digwydd. Effaith yn cael ei ystyried fel un sy'n cael effaith uniongyrchol neu effaith yn y dyfodol. |
| **Anawdurdodedig** | Heb hawl cyfreithlon. |
| **Amgryptio** | Mae amgryptio data yn ddull diogelwch lle mae gwybodaeth yn cael ei hamgodio a dim ond defnyddiwr sydd â'r allwedd amgryptio gywir y gellir cael gafael ar neu ddadgryptio data. Mae data wedi'i amgryptio yn ymddangos wedi'i sgramblo neu'n annarllenadwy i berson neu endid sy'n cael mynediad heb ganiatâd. |

## 5. Cyfrifoldebau

5.1. <u>Corff Llywodraethu'r Ysgol</u>
Mae corff llywodraethu'r ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi hwn wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan yr ysgol;
- monitro cydymffurfiaeth ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol mewn perthynas â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol dystiolaethu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.

5.2. <u>Y Pennaeth (ac/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)</u>
Mae'r Pennaeth ac/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau bod proses ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yr ysgol â'r polisi hwn yn barhaus;
- sicrhau bod y defnydd o systemau CCTV yn cael ei weithredu yn unol â'r polisi hwn a'i fod yn cael ei brosesu'n gyfreithlon ac yn deg;
- sicrhau bod holl weithwyr yr ysgol yn ymwybodol o'r cyfyngiadau mewn perthynas â mynediad at ddelweddau a recordiwyd a'u datgeliad;
- gweithredu ac atebolrwydd cyffredinol ar gyfer sut mae'r ysgol yn defnyddio'r system CCTV;
- rheoli a gweithredu'r system CCTV yn gyffredinol o ddydd i ddydd, gan gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â gosodiadau, cofnodi, adolygu, monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn;
- ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion o ran prosesu gwyliadwriaeth a delweddau CCTV yn gyfreithlon;
- sicrhau bod y gwaith monitro CCTV yn gyson â'r safonau a'r amddiffyniadau uchaf;
- cynnal gwaith monitro perfformiad rheolaidd, gan gynnwys hapwiriadau gweithredu ar y system CCTV;
- sicrhau bod arwyddion digonol yn cael eu codi o amgylch yr ysgol yn unol â *Chod Ymarfer y Surveillance Camera Commissioner;*

- sicrhau bod y *Log Lleoliadau CCTV Ysgolion* wedi'i gwblhau a'i fod yn cael ei ddiweddaru;
- sicrhau bod y ddogfen *Gweithdrefn CCTV yr Ysgol* wedi'i gwblhau a'i fod yn cael ei ddiweddaru;
- cadw cofnod o fynediad (e.e. cofnod systemau) i neu ryddhad o unrhyw ddeunydd a gofnodir neu a gedwir yn y system;
- sicrhau y glynir wrth gyfnodau cadw penodol ac ystyried pwy sy'n cael mynediad i ddelweddau CCTV a pham;
- sicrhau bod delweddau a recordir yn cael eu storio am gyfnod heb fod yn hwy na 30 diwrnod ac yna'n cael eu dileu oni bai bod hynny'n ofynnol fel rhan o ymchwiliad troseddol neu achos llys (troseddol neu sifil);
- sicrhau bod gwyliadwriaeth a delweddau CCTV yn cael eu dinistrio yn unol â gofynion cyfreithiol pan fyddant y tu allan i'w cyfnodau cadw;
- sicrhau bod y perimedr golwg o gamerâu lleoliad sefydlog yn cydymffurfio â'r polisi hwn yn fewnol ac yn allanol;
- sicrhau nad yw camerâu allanol yn ymwthiol o ran eu safleoedd a'u golwg o dai preswyl cyfagos ac yn cydymffurfio â'r egwyddor o "ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd";
- sicrhau bod ffilm monitro yn cael ei storio mewn man diogel gyda mynediad gan staff awdurdodedig yn unig;
- sicrhau bod mesurau seiberddiogelwch cadarn ar waith i ddiogelu data a gedwir ar y system;
- sicrhau bod rheoli camerâu yn monitro ymddygiad amheus, difrod troseddol ac ati yn unig ac nad yw'n monitro nodweddion unigol;
- cadw cofnodion cynhwysfawr a chywir o'r holl weithgareddau prosesu data, gan gynnwys gwyliadwriaeth a delweddau CCTV a manylu ar ddiben y gweithgaredd o fewn ROPA yr ysgol;
- sicrhau bod staff sydd â mynediad i system CCTV yr ysgol yn cael hyfforddiant digonol i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r system ac i gadw cofnodion o fanylion yr hyfforddiant;
- rheoli unrhyw gwynion ynglŷn â'r system CCTV gan gynnwys ystyried adborth/cwynion disgyblion a staff ynghylch ymosodiad posibl ar breifatrwydd neu gyfrinachedd oherwydd lleoliad camera CCTV penodol neu offer cysylltiedig.

5.3. <u>Swyddog Diogelu Data Ysgolion</u>

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- ddarparu trosolwg annibynnol o faterion cydymffurfiaeth;
- sicrhau bod yr ysgol yn prosesu ac yn delio â gwyliadwriaeth a ffilm CCTV yn unol â deddfwriaeth diogelu data;
- monitro deddfwriaeth i sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio gwyliadwriaeth yn deg ac yn gyfreithlon;
- monitro bod gwyliadwriaeth a ffilm CCTV yn cael eu dinistrio gan yr ysgol yn unol â gofynion cyfreithiol pan maent yn disgyn y tu allan i'w cyfnodau cadw;
- cydlynu ceisiadau mynediad am ddata a ddelir ar systemau CCTV;

- darparu cyngor a chymorth pan ofynnir amdanynt a chynghori a chynorthwyo gyda chwynion a gweithrediad offer;
- darparu arweiniad a chefnogaeth gyda chwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) lle bo angen a monitro perfformiad DPIA yr ysgol;
- monitro effaith defnyddio offer CCTV ar breifatrwydd;
- darparu cymorth gyda chreu unrhyw gytundebau prosesu data ar gyfer proseswyr data.

## 6. Pam bod gan yr ysgol CCTV

Mae defnydd o'r system CCTV yn yr ysgol ar gyfer:

- amddiffyn a chynnal lles a llesiant disgyblion, staff, ymwelwyr a'r cyhoedd;
- hyrwyddo iechyd a diogelwch disgyblion, staff, ymwelwyr a'r cyhoedd;
- cynnal amgylchedd diogel;
- cynyddu diogelwch personol a lleihau ofn troseddu;
- atal a lleihau'r nifer o ddigwyddiadau bwlio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (gan gynnwys lladrad a fandaliaeth);
- atal gweithredoedd troseddol yn erbyn unigolion ac eiddo;
- diogelu adeiladau, asedau, eiddo ac offer yr ysgol yn ystod ac ar ôl oriau ysgol;
- diogelu eiddo personol disgyblion, staff ac ymwelwyr rhag colled neu ddifrod;
- cynorthwyo staff i adnabod a datrys digwyddiadau;
- monitro diogelwch a chyfanrwydd y safle ysgol a danfoniadau a chyraeddiadau, gan gynnwys parcio ceir;
- sicrhau bod y rheolau ysgol yn cael eu parchu fel y gellir rheoli'r ysgol yn briodol;
- cefnogi'r Heddlu a'r gymuned i rwystro, atal, lleihau, darganfod ac ymchwilio i droseddau;
- cynorthwyo i adnabod, dal a chosbi'r sawl sydd wedi cyflawni trosedd;
- ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn ystod gweithdrefnau disgyblaeth a chwynion lle bo angen a lle mae'n briodol i wneud hynny.

## 7. Sail Gyfreithiol dros Brosesu

Defnyddir camerâu i fonitro gweithgareddau yn yr ysgol; ei meysydd parcio a mannau cyhoeddus eraill er mwyn adnabod gweithgarwch neu ymddygiad droseddol bosibl neu wirioneddol nad yw'n cydymffurfio â chodau ymddygiad yr ysgol ac er mwyn diogelu lles a diogelwch disgyblion, ymwelwyr a'r cyhoedd.

Ystyrir bod prosesu yn rhan o dasg gyhoeddus yr ysgol felly ystyrir mai'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yw:

- *Erthygl 6(1)(e) mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd.*

Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod:

- yn prosesu gwyliadwriaeth a ffilm CCTV yn gyfreithlon ac yn deg;

- yn casglu gwyliadwriaeth a ffilm CCTV am resymau cyfreithlon; ei fod ond yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y bwriedir ei ddefnyddio a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n unol â hynny;
- yn casglu gwyliadwriaeth a ffilm CCTV sy'n berthnasol ac yn ddigonol heb fod yn ormodol o ran y rheswm dros ei gasglu;
- yn dylunio'r system i ystyried ei heffaith ar unigolion a'u preifatrwydd a'u data personol;
- wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu cyfathrebu drwy'r ysgol;
- yn ystyried yr holl safonau gweithredol, technegol a chymhwysedd sy'n berthnasol i'r gwyliadwriaeth a'r system CCTV a'i phwrpas, a gweithio i gwrdd â'r safonau hynny a'u cynnal yn unol â'r gyfraith;
- â gweithdrefnau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar gyfer delweddau a gwybodaeth sy'n cael eu casglu, eu cadw a'u defnyddio;
- yn cyfyngu ar fynediad at ddelweddau a gwybodaeth a gadwir gyda rheolau clir ar bwy sydd â hawl i gael mynediad atynt;
- yn sicrhau nad yw unrhyw wyliadwriaeth na delweddau CCTV sy'n adnabod unigolyn yn cael ei gadw yn hirach na bod angen;
- yn diogelu ffilm sy'n cynnwys data personol yn erbyn dinistriad, addasiad, datgeliad a mynediad anawdurdodedig yn ddamweiniol ac yn anghyfreithlon;
- yn dryloyw ac yn cynnwys pwynt cyswllt lle gall pobl gael mynediad at wybodaeth a cyflwyno cwynion;
- yn ymgymryd ag adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod polisiau a safonau'n cael eu cynnal.

**Gall camddefnydd o system CCTV fod yn drosedd.**

Gall datgeliadau anawdurdodedig achosi niwed a gofid i unigolion, a gallant arwain at yr ICO yn cymryd camau gorfodi. Gall cyfreithiau eraill sy'n canolbwyntio ar enllib, aflonyddu, cyfathrebu maleisus neu ymddygiad bygythiol hefyd fod yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau.

## 8. Rheoli System

Caiff y system CCTV ei pherchnogi, ei gweithredu, ei gweinyddu a'i rheoli gan yr ysgol. Yr ysgol yw'r rheolydd data ar gyfer y delweddau a gynhyrchir gan y system CCTV. Mae'r holl gamerau yn cael eu monitro o fewn yr ysgol neu gan gwmni monitro mae'r ysgol yn ei enwebu.

Mae'n bwysig bod datgeliad a mynediad at y delweddau a recordir gan wyliadwriaeth a ffilm CCTV yn cael eu cyfyngu a'u rheoli'n ofalus, nid yn unig i sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu cadw, ond hefyd i sicrhau bod y gadwyn dystiolaeth yn parhau'n gyfan, pe bai angen y delweddau at ddibenion tystiolaethol.

Dylai'r Pennaeth gwblhau'r ddogfen *Gweithdrefn CCTV yr Ysgol* (ATODIAD A) sydd yn rhoi manylion ar sut mae'r system yn cael ei reoli. Mae hwn ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu hefyd.

8.1. Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)

Pan fydd systemau neu gamerâu CCTV newydd am eu gosod, bydd yr ysgol yn cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â gosod a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â deddfwriaeth diogelu data mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Gall hyn hefyd olygu bod angen ymgynghori â staff, rhieni a chyrff perthnasol eraill.

Bydd DPIA yn cael ei gynnal cyn gosod unrhyw system wyliadwriaeth a CCTV. Os bydd y DPIA yn datgelu unrhyw risgiau diogelwch posibl neu faterion diogelu data eraill, bydd yr ysgol yn sicrhau bod darpariaethau digonol ar waith i oresgyn y materion hyn.

Pan fydd yr ysgol yn nodi risg uchel i fuddiannau unigolyn na ellir ei goresgyn, bydd yr ysgol yn ymgynghori â'r ICO cyn defnyddio'r system CCTV, a bydd yr ysgol yn gweithredu ar gyngor yr ICO.

Bydd yr ysgol yn sicrhau y bydd gosod y systemau gwyliadwriaeth a CCTV bob amser yn cyfiawnhau ei dulliau. Os yw'r defnydd o system wyliadwriaeth a theledu cylch cyfyng yn rhy ymwthiol o ran preifatrwydd, bydd yr ysgol yn ceisio darpariaeth amgen.

Bydd y defnydd o'r system CCTV yn cael ei gynnal mewn modd proffesiynol, moesegol a chyfreithiol ac mae unrhyw wyriad o'r defnydd o dechnolegau diogelwch CCTV at ddibenion eraill yn cael ei wahardd gan y polisi hwn.

Os yw'r systemau gwyliadwriaeth a CCTV yn cyflawni eu diben ac nad oes eu hangen mwyach, bydd yr ysgol yn eu dadactifadu. Bydd unrhyw gamerâu sy'n dangos diffygion yn cael eu hatgyweirio ar unwaith er mwyn osgoi unrhyw risg o ddigwyddiad diogelwch data.

Bydd y defnydd o CCTV a'r Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) sy'n ymwneud ag ef yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu gweithrediad yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur wrth gyflawni'r dibenion a nodwyd.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â’r *Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA).*

8.2. Mynediad

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am reoli'r system CCTV o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw goruchwylio mynediad a chynnal a chadw'r system CCTV.

Gall y Pennaeth ddirprwyo'r gwaith o weinyddu'r system CCTV i aelod arall o staff. Dim ond y Pennaeth fel Rheolwr y System neu weithwyr awdurdodedig eraill yr ysgol sydd angen mynediad at y data fydd yn cael mynediad at y system CCTV a’r data a gesglir. Bydd y Pennaeth yn ystyried pwy sy'n cael mynediad i'r ffilm hon a pham. Bydd mynediad i ddelweddau wedi'u recordio yn cael ei gyfyngu i'r staff hynny sydd wedi'u hawdurdodi i'w gweld, ac ni fydd ar gael yn ehangach.

Dim ond i bersonau awdurdodedig, o dan oruchwyliaeth y Pennaeth, y rhoddir mynediad i systemau cofnodi a delweddau CCTV a gedwir, yn unol â'r amcanion a bennwyd gan yr ysgol neu os oes rhyw reswm arall a chyfreithlon dros roi mynediad o'r fath. Bydd

systemau cofnodi yn cael eu diogelu gan fesurau diogelwch priodol megis diogelu cyfrinair fel mesur diogelwch ychwanegol.

Bydd log systemau yn cael ei gadw gan yr ysgol, gan nodi pwy a ddefnyddiodd y recordiadau/delweddau, ar ba ddyddiadau ac amseroedd, ac at ba ddibenion. Dylid defnyddio templed *Log System CCTV Ysgolion* (ATODIAD A). Mae hwn hefyd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd delweddau'n cael eu gweld a/neu eu monitro mewn ardal ddiogel, gyfyngedig a phreifat addas er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o bersonau anawdurdodedig yn cael mynediad atynt neu'n cael cyfle i gael mynediad atynt. Mae monitorau arddangos gweledol wedi'u lleoli mewn ardal ddynodedig ac ni ddylai unrhyw un nad yw'n berson awdurdodedig eu gweld neu allu eu gweld. Ni ddylid caniatáu i weithwyr eraill yr ysgol a disgyblion gael mynediad i'r ardal honno pan fydd gwylio'n digwydd.

Mae'r holl weithredwyr awdurdodedig a staff ysgol sydd â mynediad i ddelweddau CCTV yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn wrth gael gafael ar y delweddau a recordiwyd. Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r cyfyngiadau mewn perthynas â mynediad i ddelweddau wedi'u recordio a'u datgelu, a dim ond mewn ffordd sy'n gyson â'r dibenion a'r gweithdrefnau y bydd yn cael eu hawdurdodi i ddefnyddio'r system CCTV.

Dan rhai amgylchiadau, gall unigolion eraill hefyd weld y recordiadau er mwyn cyflawni'r amcanion yr amlinellir uchod. Pan fydd recordiadau CCTV yn cael eu gweld, bydd mynediad yn cael ei gyfyngu i unigolion awdurdodedig ar sail pwy sydd angen gwybod.

Gellir datgelu delweddau a recordir i lywodraethwyr ysgol fel rhan o broses disgyblaethu, gweithdrefn gwyno neu gwyn mewnol os yw'n briodol.

Bydd ceisiadau a dderbynnir gan gyrff allanol (e.e. cyfreithwyr, Heddlu) i weld neu ryddhau delweddau yn cael eu cyfeirio i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn y lle cyntaf.

Bydd angen i'r ysgol hefyd sicrhau bod mesurau diogelwch seiber cadarn ar waith i ddiogelu'r data a gadwir yn y system.

## 9. Darllediadau CCTV

### 9.1. <u>Hysbysiadau</u>

Mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu staff, disgyblion, ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd eu bod yn mynd i mewn i ardal sydd â gwyliadwriaeth CCTV a nodi pam ei bod yn casglu gwybodaeth bersonol ar ffurf delweddau CCTV. Cynhwysir hyn yn *Hysbysiadau Preifatrwydd* yr ysgol.

Dylid arddangos hysbysiadau sy'n hysbysu pobl bod CCTV ar waith mewn lleoliad clir ym mhob ardal sy'n cael ei ffilmio fel sy'n ofynnol dan *God Ymarfer y Surveillance Camera Commissioner.*

Bydd defnyddio arwyddion sydd wedi eu harddangos yn glir ym mhrif fynedfeydd allanol yr ysgol ac yna arwyddion pellach yn yr ardaloedd ac mewn mannau rheoledig yn hysbysu pobl eu bod mewn ardal lle mae system wyliadwriaeth ar waith.

Bydd lleoliadau priodol ar gyfer arwyddion yn cynnwys mynedfeydd i safleoedd ar gyfer cerddwyr a cherbydau h.y. drysau allanol, gatiau ysgol; derbynfa ac yn agos at bob camera mewnol. Dylai'r arwyddion fod yn glir ac yn ddarllenadwy.

Dylai'r arwyddion gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- hunaniaeth yr unigolyn neu’r sefydliad sy’n gyfrifol am y system CCTV;
- pwrpas y system CCTV;
- manylion ynglŷn â gyda phwy i gysylltu ynglŷn â’r system CCTV;
- unrhyw wybodaeth arall y gall ddod yn ofyniad statudol.

9.2. <u>Lleoliad y Camerâu</u>
Bydd lleoliad y camerâu CCTV yn cael ei ddewis gyda gofal mawr ac ni fyddant yn cael eu gosod mewn mannau lle byddai gan unigolion ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd (fel ystafelloedd newid a thoiledau). Cymerir gofal i sicrhau nad yw disgwyliadau preifatrwydd rhesymol yn cael eu torri. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod lleoliad yr offer yn cael ei ystyried yn ofalus i sicrhau ei fod ond yn cipio delweddau sy'n berthnasol i'r dibenion y caiff ei osod ar ei gyfer ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Oni bai bod angen ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau, bydd camerâu CCTV ar safle'r ysgol yn cael eu gosod mewn man sefydlog ac ni fyddant yn cael eu cyfeirio, eu cylchdroi na'u pwyntio ar unigolion penodol, eu heiddo neu grŵp penodol o unigolion neu ddigwyddiadau. Dim ond yn y fath fodd fel ei fod ond yn monitro'r mannau hynny y bwriedir i'r offer eu gorchuddio y bydd yr holl offer CCTV o'r fath a osodir yn yr ysgol yn cael ei leoli. Bydd y system CCTV yn cael ei defnyddio i arsylwi eiddo'r ysgol er mwyn adnabod digwyddiadau sydd angen ymateb.

Bydd yr ysgol yn sicrhau hyd eithaf ei gallu nad oes unrhyw recordiadau (neu ddim ond ychydig iawn) o bobl sy’n mynd heibio neu eiddo preifat person arall. Ni fydd y system wyliadwriaeth yn cael ei phwyntio ar gerbydau preifat nac eiddo y tu allan i berimedr yr ysgol.

O fewn adeiladau'r ysgol, mae'r ddarpariaeth CCTV mewn coridorau, mannau grisiau, mannau mynediad, ardaloedd cyhoeddus, cymunedol a chymdeithasol. Nid yw’r system yn gallu recordio sain.

**Ni fydd y system yn recordio unrhyw sain a bydd yr ysgol yn diffodd yn ddiofyn unrhyw allu i recordio sain.**

Ni fydd CCTV yn cael ei ddefnyddio mewn ystafelloedd dosbarth oni bai bod gwyliadwriaeth gudd yn **gwbl angenrheidiol.**

Bydd yr ysgol yn cadw cofnod sy'n rhoi manylion am leoliad gwahanol gamerâu a'r hyn a gaiff ei gipio gan y camera o fewn yr ardal honno yn yr ysgol drwy'r *Log Lleoliadau CCTV*

*Ysgolion* (ATODIAD B). Mae hwn hefyd ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd y system CCTV yn cael ei gweithredu 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn. Yn ystod cyfnodau o gau'r ysgol, efallai y bydd gan y Pennaeth neu aelodau eraill o staff enwebedig fynediad o bell diogel i ddelweddau byw a delweddau wedi'u recordio.

Mae'r system wyliadwriaeth wedi'i chynllunio a'i gosod ar gyfer yr effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl, fodd bynnag, ni all yr ysgol warantu y bydd y system yn cwmpasu neu'n canfod pob un digwyddiad sy'n digwydd yn y meysydd dan wyliadwriaeth a gall 'mannau dall' fodoli.

Bydd gan aelodau o staff yr ysgol fynediad i fanylion ynglŷn â lle mae camerâu CCTV wedi'u lleoli, ac eithrio camerâu a osodir at ddiben monitro cudd.

9.3. Ymwelwyr

Bydd manylion POB ymweliad ac ymwelydd â'r ysgol yn cael eu cofnodi yn llyfr ymwelwyr yr ysgol neu drwy system arwyddo electronig, gan gynnwys yr amser mynediad. Bydd hyn yn cefnogi'r ysgol i adnabod unigolion.

## 10. Gwyliadwriaeth Gudd

Gwyliadwriaeth gudd yw'r defnydd o wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rhannu'n fwriadol â'r gwrthrychau y mae'n eu recordio. Mae gwrthrychau'n cael eu recordio heb eu gwybodaeth. Mae enghreifftiau o wyliadwriaeth gudd yn cynnwys ffilmio rhywun yr amheuir ei fod yn cyflawni gweithgareddau anghyfreithlon neu dwyllodrus fel dwyn neu ffilmio rhywun lle mae amheuaeth o gam-drin, trais neu niwed fel y gellir casglu gwybodaeth a/neu dystiolaeth ar gyfer ymchwiliad.

Nid yw'r ysgol yn cydoddef y defnydd o wyliadwriaeth gudd wrth fonitro staff, disgyblion a/neu wirfoddolwyr yr ysgol. Bydd gwyliadwriaeth gudd yn cael ei chyfyngu i achlysuron prin a dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol neu eithafol** y bydd yn weithredol, er enghraifft:

- lle mae achos da dros amau bod camau anghyfreithlon neu anawdurdodedig yn digwydd, neu lle mae sail i amau camymddygiad difrifol;
- lle byddai hysbysu'r unigolion am y monitro yn amharu'n ddifrifol ar y rheswm dros wneud y recordiad.

Bydd cais am ddefnyddio camerâu cudd yn nodi'n glir y diben a'r rhesymau dros eu defnyddio. Rhaid gofyn a chael awdurdodiad gan yr Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a Swyddog Awdurdodi yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn unol â *Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000* cyn cychwyn.

Gall gwyliadwriaeth gudd a gynhelir gan staff yr ysgol heb fath o awdurdod gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu fod yn destun camau disgyblu.

Dylai Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu fod yn fodlon bod yr holl ddulliau atal corfforol eraill wedi'u disbyddu cyn defnyddio recordio cudd.

Bydd yr holl waith monitro o'r fath yn cael ei ddogfennu'n llawn a dim ond am gyfnod cyfyngedig a rhesymol y bydd yn digwydd.

Rhaid i fonitro cudd ddod i ben ar ôl cwblhau ymchwiliad. Ni fydd camerâu sydd wedi'u gosod at ddibenion monitro cudd yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd y disgwylir yn rhesymol iddynt fod yn breifat, er enghraifft ciwbiclau toiled, ardaloedd newid ac ati.

## 11. Storio a Chadw Offer a Data

Bydd ffilm wedi’i recordio a'r offer monitro yn cael eu storio'n ddiogel mewn ardal gyfyngedig. Ni chaniateir mynediad heb awdurdod i'r ardal honno ar unrhyw adeg. Bydd mynediad i'r system CCTV a delweddau wedi'u storio yn cael ei gyfyngu i ddefnyddwyr awdurdodedig yn unig a bydd yr ardal dan glo pan nad yw'r defnyddwyr awdurdodedig yn ei meddiannu. Bydd mynediad i'r system wyliadwriaeth, meddalwedd a data yn cael ei gyfyngu'n llym i ddefnyddwyr awdurdodedig a byddant yn cael eu diogelu gan gyfrinair.

Ni fydd data a recordir yn cael ei gadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol. Er eu bod yn cael eu cadw, bydd cyfanrwydd y recordiadau'n cael ei gynnal i sicrhau eu gwerth tystiolaethol ac i ddiogelu hawliau'r bobl y mae eu delweddau wedi'u recordio.

Pan gedwir data o'r fath, caiff ei gadw yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Bydd gwybodaeth gan gynnwys dyddiad, amser a hyd y recordiad, yn ogystal â'r lleoliadau a gwmpesir a grwpiau neu unigolion a recordir, yn cael eu cofnodi yn y log systemau. Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi dod i ben, dylid tynnu neu ddileu'r delweddau.

Fel arfer, bydd data a recordir yn cael ei gadw am o leiaf bythefnos ond am uchafswm o 30 diwrnod, ac eithrio pan fo'r ddelwedd yn nodi mater sy'n golygu bod angen echdynnu a chadw'r darn hwnnw o dystiolaeth neu ei fod yn cael ei gadw'n benodol yng nghyd-destun ymchwiliad/erlyniad i'r mater hwnnw. Gall delweddau/recordiadau CCTV ddal materion fel ymddygiad troseddol neu risg i iechyd a diogelwch ac efallai y bydd angen cadw'r delweddau/recordiadau CCTV i ymchwilio i'r mater hwnnw. Gall y ffilm fod yn ofynnol yn gyfreithlon gan drydydd parti priodol fel yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.

Oni bai bod angen data at y dibenion uchod gan yr ysgol neu gyrff ymchwilio, bydd data'n cael ei drosysgrifo'n awtomatig neu â llaw neu’n cael ei ddileu'n ddiogel. Bydd unrhyw luniau diangen a gaiff eu cipio’n cael eu dileu'n ddiogel o'r system ysgolion. Os bydd angen at ddibenion ymchwilio, bydd data'n cael ei ddinistrio cyn gynted ag nad oes ei angen mwyach.

## 12. Asesu’r System CCTV

Bydd y Pennaeth yn gwirio ac yn cadarnhau effeithlonrwydd y system bob dydd ac yn benodol bod yr offer yn recordio’n iawn; bod camerâu'n weithredol ac yn gweithredu'n effeithiol. Dylai'r camerâu a osodwyd ddarparu delweddau sydd o ansawdd addas at y dibenion penodedig y maent wedi'u gosod ar eu cyfer.

Gwneir gwiriadau i sicrhau cywirdeb unrhyw nodweddion megis lleoliad y camera a/neu gyfeiriad dyddiad ac amser. Os canfyddir nad yw'r amser/dyddiad ac ati yn gyson â'r amser/dyddiad presennol, bydd y Pennaeth yn cymryd camau i gywiro'r gwall. Bydd nodyn o newidiadau o'r fath yn cael ei gofnodi yn y log systemau.

Bydd camerâu'n cael eu cynnal a'u gwasanaethu'n briodol er mwyn sicrhau bod delweddau clir yn cael eu recordio. Bydd y system yn cael ei gwirio a bydd gwasanaethu'n cael ei gynnal o leiaf bob blwyddyn.

Mae unrhyw ddiweddariadau meddalwedd (yn enwedig diweddariadau diogelwch) y mae angen eu gwneud i'r system neu unrhyw ddyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â hi a gyhoeddir gan wneuthurwr yr offer, yn cael eu gwneud ar unwaith.

Dylid diogelu camerâu rhag fandaliaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio.

Efallai yr hoffai'r corff llywodraethu dderbyn adroddiad blynyddol ar berfformiad a blaenoriaethau'r system gan gynnwys trosolwg byr o wiriadau a mesurau diogelwch, canmoliaeth a chwynion, ceisiadau am ddatgeliad ac ati.

**13. Lawrlwytho Gweithdrefnau Ffilm**

Er mwyn cynnal a chadw uniondeb y data (a sicrhau ei fod yn dderbyniol mewn unrhyw achos cyfreithiol), rhaid paratoi unrhyw ffilm lawrlwytho a ddefnyddiwyd i recordio digwyddiadau o'r gyriant caled yn unol â'r gweithdrefnau canlynol:

- rhaid i bob ffilm lawrlwytho gael ei adnabod gan farc unigryw;
- cyn ei ddefnyddio, rhaid glanhau pob ffilm lawrlwytho o unrhyw recordiad blaenorol;
- bydd y Pennaeth yn cofrestru dyddiad ac amser mewnosod ffilm lawrlwytho, gan gynnwys ei gyfeirnod;
- rhaid i'r ffilm sy'n ofynnol at ddibenion tystiolaethol gael ei selio, ei weld a'i lofnodi gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth, ac yna ei ddyddio a'i storio mewn storfa dystiolaeth ddiogel ar wahân. Os na chaiff ffilm lawrlwytho ei gopïo ar gyfer yr Heddlu cyn iddo gael ei selio, gellir gwneud copi yn ddiweddarach ar yr amod ei fod wedyn yn cael ei ail-selio, ei dystio a'i lofnodi gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth, yna ei ddyddio a'i ddychwelyd i'r storfa dystiolaeth.

Os caiff lluniau lawrlwytho eu harchifo, rhaid nodi'r cyfeirnod. Bydd ffilm lawrlwytho'n cael ei fynegeio, ei storio a'i ddinistrio'n briodol ar ôl ei ddefnyddio'n briodol, yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data a'r cyfnodau cadw.

Wrth gyrchu a gwylio delweddau, rhaid i ddau aelod o staff awdurdodedig fod yn bresennol (un ohonynt yn ddelfrydol yw'r Pennaeth). Bydd cofnod ysgrifenedig o fynediad yn cael ei gadw drwy log systemau. Cedwir cofnodion mynediad a byddant yn dogfennu'r canlynol:

- dyddiad ac amser eu hechdynnu;
- enw'r person sy'n echdynnu'r delweddau;

- enw(au) y person(au) a'r sefydliad y maent yn ei gynrychioli yn edrych ar y delweddau;
- y rheswm dros y gwylio;
- sut yr ymdriniwyd â'r cais;
- canlyniad, os o gwbl, y gwylio;
- y dyddiad a'r amser y dychwelwyd y delweddau i'r system; neu
- lle diogel, os ydynt wedi'u cadw at ddibenion tystiolaethol.

Bydd data yn cael ei ddarparu mewn fformat parhaol lle bo’n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr unigolyn yn cael cyfle i weld y ffilm.

Dylid amgryptio recordiadau sydd wedi eu hechdynnu i ddiogelu’r ffilm.

**14. Ceisiadau gan Wrthrych y Data**

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn am fynediad i'r data personol sydd gan yr ysgol arnynt mewn perthynas â hwy eu hunain ac i ddilysu cyfreithlondeb y prosesu o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir ar y system CCTV, os yw wedi'i chadw. Bydd yn rhaid i'r ysgol sicrhau y gall roi copïau i unigolion o ddelweddau'r unigolyn hwnnw a gasglwyd gan y system CCTV cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r hawl hon yn amodol ar rai eithriadau rhag mynediad, gan gynnwys mewn rhai amgylchiadau, lle gellir adnabod eraill.

Gofynnir i unigolion sy'n cyflwyno ceisiadau am fynediad gwblhau’r *Ffurflen Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion* ac i ddarparu digon o wybodaeth a manylion penodol i alluogi adnabod y ffilm sy'n ymwneud â hwy, er enghraifft, dyddiad, amser a lleoliad y recordiad.

Gofynnir am dystiolaeth ffotograffig o hunaniaeth a/neu ddisgrifiad manwl i ganiatáu ar gyfer adnabod. Rhaid i'r ysgol fodloni ei hun o hunaniaeth unrhyw berson sy'n dymuno gweld delweddau neu gael mynediad i'r system a dilysrwydd y cais. Lle mae unrhyw amheuaeth, gwrthodir mynediad.

Wrth roi copi o'i ddata i'r person, gall yr ysgol ddarparu llun llonydd/cyfres o luniau llonydd, tâp neu ddisg gyda delweddau perthnasol. Os mai dim ond yr unigolyn sy'n gwneud y cais sydd i’w weld yn y ffilm, yna gellir caniatáu i'r unigolyn weld y ffilm.

Bydd copi o'r wybodaeth yn cael ei roi i'r unigolyn yn ddi-dâl; fodd bynnag, gall yr ysgol osod 'ffi resymol' i gydymffurfio â cheisiadau am gopïau pellach o'r un wybodaeth.

Mae gan yr ysgol hawl i wrthod mynediad i ffilm CCTV lle byddai hyn yn amharu ar hawliau cyfreithiol unigolion eraill neu'n peryglu ymchwiliad parhaus.

Os nad yw'r ysgol yn gallu cydymffurfio â chais gan wrthrych y data heb ddatgelu data personol unigolyn arall yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno, nid yw'n ofynnol iddi gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod wedi'i fodloni bod yr unigolyn wedi rhoi ei gydsyniad datganedig i'r datgeliad, neu os yw'n rhesymol, gan roi sylw i'r amgylchiadau, i gydymffurfio heb gydsyniad yr unigolyn.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion* a bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r ysgol a gall hwyluso a chefnogi'r gwaith o baratoi ymateb i'r cais.

